

# Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dogfen ganllawiau anstatudol Rhagfyr 2020 - Drafft

## Cynnwys

### **Crynodeb Gweithredol 3**

#### **Rhan 1 – Pam y mae angen i ni gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

1.1	Cefndir a chyd-destun y polisi	5
1.2	Beth yw addysg drochi cyfrwng Cymraeg?	5
1.3	Pam y mae angen gategoreiddio iaith ysgolion?	6
1.4	Beth yw'r gofynion statudol o ran categorïau iaith ysgolion?	7
1.5	Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran categorïau ysgolion yng Nghymru?	8

#### **Rhan 2 – Cyflwyno'r categorïau newydd**

2.1	Beth yw'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig?	10
2.2	Y Categorïau	12
2.3	Is-gategorïau Trosiannol	19
2.4	Sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol?	19

#### **Rhan 3 – Rhoi'r trefniadau gategoreiddio ysgolion newydd ar waith**

3.1	Cydweithio	21
3.2	Beth y dylid ei ddweud wrth rieni a gofalwyr: beth y dylai ysgolion ac awdurdodau ei gynnwys mewn prosbectysau?	21
3.3	Symud o'r trefniadau categori presennol i'r trefniadau newydd – sut y bydd yn digwydd?	21
3.4	Beth sy'n digwydd pan na fydd ysgol yn cyfateb yn union i gategori?	21
3.5	Beth os bydd ysgol yn anghytuno gyda'i chategori?	22
3.6	A oes rhaid i bob ysgol symud?	22
3.7	Beth y mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion ei wneud i roi'r canllawiau hyn ar waith?	22
3.8	Beth y mae angen i bob un ohonom ei wneud?	23

## Crynodeb Gweithredol

Mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru ddweud wrth rieni a Llywodraeth Cymru ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod naill drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'n gyfuniad o'r ddau.

Ers 2013, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynlluniau hyn (a wnaed o dan adrannau 84-87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) yn dangos sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gwella safonau'r addysg honno a'r broses o addysgu Cymraeg yn ei ardal.

Daeth rheoliadau newydd ar gyfer Cynlluniau Statudol Cymraeg mewn Addysg i rym yn 2020. Gwnaethom hyn fel y byddai'r Cynlluniau hyn yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg, a amlinellir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn well.

Mae ein polisi ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl iaith y ddarpariaeth yn rhan o ddiwygiadau addysg ehangach. Rydym yn bwriadu cyflwyno cwricwlwm newydd o 2022, ac mae angen i ni sicrhau cysondeb ar draws pob maes polisi. Rydym wedi datblygu'r categorïau drafft yn unol â'r egwyddorion hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu ein polisi ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Rydym wedi eu llunio er mwyn rhoi gwybodaeth glir i rieni/gofalwyr yn y lle cyntaf, ac fel y gall llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru gael gwybodaeth gywir o ran y graddau y caiff addysg ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym eisïau symleiddio'r categorïau drwy leihau'r nifer i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Er mai tri chategori a gyflwynir ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd, nid yr un meini prawf sy'n diffinio natur eu darpariaeth. Yn y **cynradd**, bwriedir **categori'o'r ddarpariaeth ieithyddol a gynigir** ac nid yr ysgol fel sefydliad cyfan, felly gallai ysgol gynradd fod yn ysgol Categori 1 a 2 neu 2 a 3 yn ôl y ddarpariaeth a gynigir. Yn y sector **uwchradd**, argymhellir **mai ysgolion fel sefydliadau cyfan sy'n cael eu categori** er efallai y bydd rhaid cael cynlluniau datblygol penodol ar gyfer yr ysgolion uwchradd lle ceir ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd.

Gan mai un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, byddwn hefyd yn cyflwyno dau is-gategori trosiannol yn y sector cynradd a dau yn yr uwchradd, er mwyn hwyluso'r broses i ysgolion sy'n dymuno cynyddu eu darpariaeth a symud i'r categori nesaf. Rhydd hyn gyfle i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig o amser.

Byddwn hefyd yn defnyddio rhifau fel penawdau ar gyfer y categorïau, sef Categori 1, 2 a 3, gan sicrhau fod paragraff esboniadol yn cyd-fynd â'r dull hwn o adnabod y gwahanol fathau o ysgolion. Rhydd hyn gyfle i esbonio i rieni beth yw hyd a lled y ddarpariaeth a beth y gallent ddisgwyl i'w plant ei gyflawni'n ieithyddol.

Gyda'r drefn newydd o gategoreiddio, un o'r egwyddorion creiddiol ddylai fod nad yw ysgolion yn medru cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol.

# Rhan 1 – Pam y mae angen i ni gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

## 1.1 Cefndir a chyd-destun y polisi

Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith. Rydym am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o tua 600,000 yn 2011 i un filiwn erbyn 2050. Rydym hefyd am ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Mae'r system addysg yn allweddol i wireddu'r weledigaeth hon. Yn Cymraeg 2050, rydym yn pwysleisio mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, a'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae angen i ni hefyd gynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Un flaenoriaeth benodol yw sicrhau bod ysgolion dwyieithog yn cyflwyno cyfran uwch o'r cwricwlwm yn Gymraeg er mwyn rhoi sylfaen ieithyddol gadarn i ddysgwyr.

Mae gan y cwricwlwm ffocws o'r newydd ar ddysgu sydd wedi'i deilwra ar gyfer cryfderau ein dysgwyr. Mae'n cynnig hyblygrwydd i ysgolion i benderfynu'r dull gorau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg. Mae'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru wedi ei seilio ar gontinwrm neu fframwaith cynnydd ar gyfer ieithoedd, yn dechrau gyda dim neu ychydig iawn o iaith yn gweithio tuag at hyfedredd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg, i ddatblygu ac adeiladu ar ei sgiliau a hyder yn ystod cyfnod eu haddysg statudol a'u gyrfaoedd ôl- addysg statudol.

## 1.2 Beth yw addysg drochi cyfrwng Cymraeg?

Mae ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Daw dysgwyr yn yr ysgolion hyn o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol, rhai o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac eraill lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn cael proses o drochi iaith. Addysgir dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr un ystafell ddosbarth, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg gartref ai peidio.

Gellir dod o hyd i enghreifftiau o ysgolion sy'n ymarfer trochi ledled y byd. Mae model Canada ar gyfer gweithredu trochi wedi'i ddogfennu'n eang. Mae'n dangos bod angen trochi cychwynnol am ddwy neu dair blynedd yn yr iaith darged er mwyn sicrhau bod cymhwysedd iaith plentyn yn cael ei ddatblygu'n ddigonol i ddysgu drwy'r ail iaith honno. Yna fe gyflwynir iaith arall.

Dyma'r model yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru ac mae'n golygu ein bod yn addysgu'r plant hynny yn Gymraeg yn unig hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed. Ar ôl hynny, yr ydym yn cyflwyno Saesneg fel pwnc, ac i wahanol raddau fel cyfrwng addysgu. Cymraeg yw prif iaith yr ystafell ddosbarth o hyd.

### 1.3 Pam y mae angen categorïau iaith ysgolion?

Mae darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac oddi mewn iddynt. Er bod y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu'r holl bynciau craidd, neu'r rhan fwyaf ohonynt, mae rhai ysgolion eraill yn darparu gwersi mewn cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg i raddau mwy neu lai, neu'n cynnig ffrydiau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar wahân. Yn aml, mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae awdurdodau lleol wedi ymateb i'r nod o sicrhau bod dysgwyr sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â natur ieithyddol yr ardal dan sylw.

Gwnaethom gyflwyno categorïau iaith ysgolion am y tro cyntaf yn 2007 mewn ymgais i roi darlun cyflawn o'r ffordd yr oedd addysg drochi cyfrwng Cymraeg yn cael ei rhoi ar waith, yn ogystal â sicrhau cysondeb drwy grwpio ysgolion a oedd yn defnyddio dulliau trochi tebyg. Cafodd y rhain eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn y canllawiau anstatudol, *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*<sup>1</sup>, ac roeddent yn cynnwys nifer o gategorïau – pum categori yn y sector cynradd a phedwar yn y sector uwchradd (gan gynnwys pedwar is-grŵp).

Er gwaethaf hyn, nid yw'r categorïau wedi cael eu defnyddio'n gywir bob amser. Maent yn aml yn cael eu camddehongli. Gall hyn achosi dryswch i rieni/gofalwyr a gall olygu bod darpariaeth yr ysgol yn cael ei marchnata'n anghywir ym mhrosiectysau /deunyddiau hyrwyddo'r ysgol. Hefyd, nid oedd unrhyw broses fonitro ffurfiol i sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigwyd gan ysgolion yn adlewyrchu'r meini prawf yn y categori a'r canllawiau.

Erbyn hyn, nid yw'r amwysedd ynghylch categorïau ysgolion yn cefnogi'r ymrwymïadau a wnaed yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac ymgymryd â'r broses statudol o newid categori ysgol. Bydd egluro'r trefniadau yn hwyluso'r broses hon fel y gall awdurdodau lleol gyflawni'r targedau a bennwyd yn eu Cynlluniau. Dyna pwrpas y ddogfen hon.

Mae eglurder ynghylch cyfrwng iaith ysgolion hefyd yn bwysig wrth i ni gyflwyno Cwricwlwm newydd Cymru. Am y tro cyntaf, bydd gan y cwricwlwm newydd gontinwmm clir o ddilyniant a disgwyliadau o ran caffael y Gymraeg ar draws pob lleoliad ysgol. Bydd cynllun gweithredu'r cwricwlwm a'r rhwydwaith cenedlaethol newydd o weithwyr addysgu proffesiynol yn helpu i gefnogi dilyniant yn y Gymraeg a chyflawni llwybr dilyniant iaith Gymraeg.

Er mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, dylid ei ystyried o fewn y polisi cyffredinol o gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau bod categorïau ysgolion yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu swm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'i CSCA.

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/diffinio-ysgolion-yn-%C3%B4I-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Rydym wedi gweithio i sicrhau cysondeb strategol rhwng y Disgrifiadau dysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm newydd i Gymru.

## 1.4 Beth yw'r gofynion statudol o ran categorïau iaith ysgolion?

Mae deddfwriaeth benodol sy'n pennu dyletswyddau a gofynion i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y cyfrwng iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae *Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011*<sup>2</sup> yn nodi'r wybodaeth y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei chyhoeddi ym mhrosbectysau ysgolion unigol a phrosbectws cyfansawdd yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol at ddibenion CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion). Mae Atodlen 2 i'r rheoliadau yn nodi'r wybodaeth gyffredinol i'w chyhoeddi gan awdurdodau lleol ym mhrosbectws yr ysgol, sy'n cynnwys y categorïau iaith a ddefnyddiwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol yn y datganiad CYBLD diweddaraf sy'n disgrifio'r ysgol orau.

Mae rheoliadau a wneir o dan *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ("Deddf 2013"), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol<sup>3</sup> baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSCA"). Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn CSCA awdurdod lleol sy'n cynnwys y gofyniad i 'osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y Cynllun yng nghyfanswm yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg'. Mae hwn yn ofyniad statudol lle mae'n rhaid i'r awdurdod arwain yn strategol.

Mae Adran 42 o Ddeddf 2013 yn darparu y caiff awdurdod lleol neu gorff llywodraethu wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion. Mae hyn yn cynnwys newid i gyfrwng iaith yr ysgol sy'n dod o fewn tablau 1 o baragraff 7 neu dabl 2 o baragraff 8 o'r Atodlen.

Mae unrhyw newidiadau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â gofynion a osodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a wnaed o dan Adrannau 38 o Ddeddf 2013.

Pan fydd awdurdod lleol ac/neu ysgol yn ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion, dylid ystyried sut y bydd y cynigion yn cefnogi'r targedau CSCA y sir, gan gynnwys sut y gallai'r cynnig ehangu neu leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Os byddai'r cynigion yr ymgynghorir arnynt yn lleihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r cynnig<sup>4</sup>. Y CSCA sydd yn aml yn gyrru'r agenda categoreiddio ysgolion, felly awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith cychwynnol o weithredu'r canllawiau hyn oherwydd eu dyletswyddau statudol i gydymffurfio â rheoliadau CSCA.

<sup>2</sup><https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1944/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/part/4/enacted>

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf>

## 1.5 Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran categorïau ysgolion yng Nghymru?

Ar hyn o bryd mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn dilyn trefniadau categoreiddio gwahanol yn unol â chanllawiau 2007, *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Mae'n bwysig i'w nodi yma mai trefniadau anstatudol sydd mewn lle ar hyn o bryd.

### Ysgolion cynradd

Mae **ysgolion cynradd** yn perthyn i un o'r pum categori isod:

#### Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff o leiaf 70% o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### Ysgolion dwy ffrwd

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bodoli fwy neu lai ochr yn ochr â'i gilydd.

#### Ysgolion trosiannol: Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddir y ddwy iaith i addysgu Cyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, fel ei bod yn cael ei defnyddio i addysgu dros 50%, a hyd at 70%, o'r cwricwlwm.

#### Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 eu haddysgu yn y ddwy iaith, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg i addysgu rhwng 20% a 50% o'r cwricwlwm yn gyffredinol.

#### Ysgolion cyfrwng Saesneg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond caiff Cymraeg ei haddysgu fel ail iaith, ac efallai y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### Ysgolion uwchradd

Mae **ysgolion uwchradd** yn perthyn i un o'r pedwar grŵp isod.

#### Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Caiff pob pwnc, ar wahân i Saesneg, ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### Ysgolion dwyieithog

Mae'r categori hwn yn cynnwys pedwar is-gategori, yn dibynnu ar ganran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a p'un a yw'r un ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy gyfrwng y Saesneg ai peidio.



- **Math A:** Caiff o leiaf 80% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Efallai y caiff un neu ddau o bynciau eu haddysgu i rai disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg neu'r ddwy iaith.
- **Math B:** Caiff o leiaf 80% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Math C:** Caiff 50-79% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Math D:** Caiff pob pwnc (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) ei addysgu i'r disgyblion gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

### **Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

Defnyddir y ddwy iaith i addysgu'r pynciau, gyda 20-49% o'r pynciau'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, caiff pob pwnc fel arfer ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

### **Ysgolion cyfrwng Saesneg**

Caiff y disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, a chaiff Cymraeg ei haddysgu fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4.

## Rhan 2: Cyflwyno'r categorïau newydd

### 2.1 Beth yw'r prif newidiadau sy'n cael eu cynnig?

#### Nifer y categorïau

Rydym wedi lleihau nifer y categorïau ar draws y cynradd ac uwchradd i 6. Mae hyn wedi galluogi aliniad ac eglurder agosach rhwng categorïau'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Wedi dweud hynny, er mai'r un nifer o categorïau a argymhellir ar gyfer y ddwy sector, nid ydynt yn cyfateb yn llwyr i'w gilydd oherwydd bod strwythur trefnu'r ddarpariaeth addysgol a phatrymau dilyniant rhywfaint yn wahanol yn y ddwy sector. Byddai cael tri chategori yn unig yn arwain at sefyllfa lle mae esbonio'r ddarpariaeth yn haws, ac yn fwy dealladwy i rieni a Llywodraethwyr ysgolion. Mae hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y dadansoddiad o ddata CYBLD a wnaed fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau categorïau presennol sy'n awgrymu bod ysgolion Cymru'n fras yn disgyn i dri grŵp.

Bydd ysgolion sydd wedi ymrwmo i symud i gategori arall yn cael eu nodi fel ysgolion trosiannol sef fel ysgol T2 neu T3 a fydd yn hwyluso taith fwy di-dor o un categori i'r llall.

#### Gwahaniaethau yn y modd yr ymdrinnir â'r Cynradd ac Uwchradd

O edrych ar y sector gynradd, gwelwyd nad oedd dilyniant o fewn y sector honno'n achosi anawsterau sylweddol mewn llawer o ardaloedd. Yn y sector cynradd, rydym wedi cyflwyno'r gallu i gategoreiddio darpariaeth yn hytrach nac ysgol gyfan yn ôl yr angen. Mae hyn yn golygu bydd ysgolion cynradd sydd yn y categori dwy ffrwd ar hyn o bryd yn gallu nodi eu darpariaeth mewn mwy nag un categori, er enghraifft categori 1 a chategori 3. Bydd ysgolion sy'n dymuno cynyddu eu darpariaeth yn raddol hefyd yn gallu categoreiddio ffrydiau neu dosbarthiadau o fewn ysgol i adlewyrchu hyn. Er enghraifft, gallai hyn olygu y gallai ysgol o fewn categori 2 sydd yn dymuno cynyddu ei darpariaeth gan ddechrau gyda dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg nodi ei hun fel categori 2 a 3.

Mewn cytundeb â'r awdurdod lleol, bydd disgwyl i ysgolion cynradd sy'n cofnodi eu darpariaeth mewn dau gategori ar wahân sicrhau ei bod yn amlinellu'r deilliannau ieithyddol disgwylidig i rieni/gofalwyr ar gychwyn y daith, fel y bydd yn gwbl glir i rieni/gofalwyr sydd am i'w plant ddatblygu yn siaradwyr dwyieithog rhugl, pa ddarpariaeth/ffrwd o fewn yr ysgol yw hyn.

Wrth edrych ar y sector cynradd, gwelwyd nad oedd dilyniant o fewn y sector honno yn creu anawsterau sylweddol mewn nifer o ardaloedd. Gwelir fod diffyg dilyniant ieithyddol o ran dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn dechrau wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r sector uwchradd a bod hynny'n cynyddu wrth i'r disgyblion symud drwy'r sector honno. Cytunwyd felly y byddai'n dda, wrth gategoreiddio ysgolion uwchradd, defnyddio dau faen prawf a fyddai'n cymell ysgolion a chyrrff llywodraethol i gynllunio ar gyfer gwella lefelau dilyniant. Felly, cynigir fod modelau categori 2 a 3 yn cael eu diffinio yn ôl model mewnbyn ac allbyn, sef:

- y niferoedd o feysydd dysgu a phrofiad trwy gyfrwng y Gymraeg a gynigir gan ysgol
- y ganran o ddisgyblion sy'n dilyn y meysydd dysgu a phrofiad hynny trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed.

### **Yr egwyddor o beidio a symud yn ôl**

Un o'r egwyddorion creiddiol wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai fod ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol. Wrth leihau'r nifer o gategoriâu, rydym yn cynnig hyblygrwydd i ysgolion dyfu eu darpariaeth o'r Gymraeg o fewn y categori honno.

## 2.2 Y Categorïau

### Categorïau Ysgolion Cynradd

Categorïau Ysgolion – Y Sector Cynradd				
<b>Categori 1</b> Cyfrwng Saesneg	<b>T2</b> Trosiannol	<b>Categori 2</b> Cymraeg / Saesneg	<b>T3</b> Trosiannol	<b>Categori 3</b> Cyfrwng Cymraeg
Categori 1 Ysgol/dosbarth/ffrwd cyfrwng Saesneg				
Disgrifiad y categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol / ieithyddol		
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.</p> <p>Mae o leiaf 10% o'r Cwricwlwm yn cael ei ddysgu yn y Gymraeg.</p>	<p>Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.</p> <p>Saesneg yw prif iaith gyfathrebu'r ysgol o ddydd i ddydd.</p> <p>Cydnabyddir pwysigrwydd Cymraeg achlysurol er mwyn creu ethos Gymraeg a Chymreig o fewn yr ysgol.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y Saesneg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu a bydd peth dealltwriaeth o'r Gymraeg ganddynt.</p>		
Categori 2 Ysgol/dosbarth/ffrwd Cymraeg/Saesneg				
Disgrifiad y Categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol/ ieithyddol		
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.</p>	<p>Caiff y Gymraeg ac elfennau o'r meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Gymraeg eu asesu yn y Gymraeg, ac elfennau o'r</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu yn y Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p>		

<p>Addysgir 50% o'r Cwricwlwm yn y Gymraeg a 50% yn y Saesneg.</p>	<p>meysydd dysgu a phrofiad a ddysgir yn y Saesneg eu asesu yn y Saesneg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir Saesneg achlysurol ar adegau i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu yn y Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau cyfarwydd.</p>
--	---	---

**Categori 3**  
**Ysgol/dosbarth/ffrwd cyfrwng Cymraeg**

Disgrifiad y categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol/ieithyddol
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed, addysgir pob dysgwr yn llawn yn Gymraeg. Wedi hynny, addysgir o leiaf 80% o'r Cwricwlwm yn y Gymraeg.</p>	<p>Cyflwynir y Gymraeg unai fel iaith gyntaf neu drwy ddulliau addysg drochi.</p> <p>Caiff Saesneg ei chyflwyno o'r flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed ymlaen.</p> <p>Caiff disgyblion eu hasesu yn Gymraeg yn bennaf, gydag asesiadau yn y Saesneg fel y bo'n briodol.</p> <p>Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn gallu siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p>

## Categoriâu Ysgolion Uwchradd

Categoriâu Ysgolion – Y Sector Uwchradd		
Categori 1 Ysgol Cyfrwng Saesneg		
Disgrifiad y categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol / ieithyddol
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.</p> <p>Mae o leiaf 10% o'r Cwricwlwm yn cael ei ddysgu yn y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn astudio mwyafrif y meysydd cwricwlaidd drwy gyfrwng y Saesneg.</p> <p>Addysgir y Gymraeg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu i bob dysgwr hyd at 16 oed i'w galluogi i ymgynhydd â'r camau cynnydd priodol.</p> <p>Saesneg yw prif iaith gyfathrebu'r ysgol o ddydd i ddydd.</p> <p>Cydnabyddir pwysigrwydd Cymraeg achlysurol er mwyn creu ethos Gymraeg a Chymreig o fewn yr ysgol.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y Saesneg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn rhugl yn Saesneg ac yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p> <p>Mae'r dysgwyr wedi datblygu digon o sgiliau Cymraeg i gyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau penodol.</p>


Categori 2 Ysgol Cymraeg/Saesneg		
Disgrifiad y Categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol / ieithyddol
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol a'r cynnig cwricwlaidd.</p> <p>Cynigir ystod briodol o bynciau yn y Gymraeg (o leiaf 40%).</p> <p>Mae o leiaf 40% o ddysgwyr yn dewis dilyn meysydd astudio yn y Gymraeg hyd at 16 oed mewn o leiaf 3 phwnc (neu'r hyn sydd yn cyfateb i hynny o fewn y cwricwlwm newydd heb gynnwys Cymraeg a Saesneg laith).</p>	<p>Defnyddir y Gymraeg yn sylweddol ym mywyd bob dydd yr ysgol.</p> <p>Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg a Chymreig yn yr ysgol.</p> <p>Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd cyfathrebu â dysgwyr fel y bo'n briodol.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r dysgwyr sy'n dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p> <p>Mae'r dysgwyr sy'n dilyn pynciau trwy gyfrwng y Saesneg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p>
Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg		
Disgrifiad y categori	Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion ac i awdurdodau lleol?	Canlyniad addysgol / ieithyddol
<p>Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae o leiaf 70% o'r Cwricwlwm yn cael ei ddysgu yn y Gymraeg.</p> <p>Mae o leiaf 70% o ddysgwyr yn dilyn meysydd astudio yn y</p>	<p>Mae ethos Cymraeg a Chymreig gan yr ysgol.</p> <p>Y Gymraeg yw prif iaith cyfathrebu yr ysgol.</p> <p>Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn y ddwy iaith.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg (siarad, darllen, gwrando, ysgrifennu).</p> <p>Mae'r dysgwyr yn gallu cyfathrebu'n hyderus mewn amrywiol gyd-destunau yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, yn unol â disgwyliadau'r</p>

<p>Gymraeg hyd at 16 oed mewn o leiaf 5 pwnc (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn y cwrwlwm newydd heb gynnwys Cymraeg a Saesneg Iaith).</p>		<p>cwrwlwm ac yn unol â'u hoedran a'u gallu.</p>
--	--	--




## Sut gall ysgolion ffitio i'r categorïau newydd?

### Sector cynradd



## Sector Uwchradd



\*Gweler tudalen 8 am fathau ysgolion dwyieithog

## 2.3 Is-gategoriâu Trosiannol

Er mwyn cynorthwyo cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rydym wedi cynnwys yr hyn rydym yn ei alw'n 'is-gategoriâu trosiannol' fel categorïau pontio. Byddai'r trefniadau pontio hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ffordd sydd fwyaf addas iddynt. Pwysleisiwn yma mai cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf yw nod yr is-gategoriâu trosiannol.

Ni ddylai categorïau trosiannol fod yn barhaol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gytuno ar gynlluniau i gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ymgorffori hyn yn eu CSCA. Mae hyn yn golygu na all unrhyw gategori trosiannol bara mwy na 10 mlynedd. Dylai categorïau trosiannol gael ei adnabod er mwyn helpu'r broses fonitro ac i adnabod pa gefnogaeth sydd angen gan ran-ddeiliaid er mwyn hwyluso cynnydd. Argymhellwn y dylai ysgolion fod o fewn is- gategori trosiannol am o leiaf 5 mlynedd a dim mwy na 10 mlynedd er mwyn gweld trawsnewid llyfn o un categori i'r llall.

Gall ysgol drosglwyddo yn syth i'r is-gategori trosiannol os yw'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi adnabod potensial i'r ysgol symud i gategori arall. Bydd angen sicrhau bod cynllun yn cael ei gytuno gyda'r awdurdod lleol i gefnogi'r ysgol baratoi at gynnydd yn eu darpariaeth o'r Gymraeg. Dylai unrhyw ysgol sydd mewn is-gategori trosiannol nodi hynny yn eu prospectws ysgol. Hefyd o ran awdurdodau lleol, dylid nodi hynny yn eu prospectws cyfansawdd sirol. Os fydd y cynllunio ar y cyd rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol yn cadarnhau'r potensial a'r awydd i symud yr ysgol i gategori 2 neu 3, dylid ddechrau ar y proses, fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, o ymgynghori ar y newid rheoleiddiedig.

## 2.4 Sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol?

### Categoriâu cynradd ac uwchradd<sup>5</sup>

Bydd nifer y categorïau ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd yr un peth, sef tri categori a dau is-gategori trosiannol. Bydd hyn yn cynnig yr un cyfle i ysgolion yn y ddau sector newid o un categori i'r llall drwy'r is-gategori trosiannol. Fodd bynnag, bydd y disgrifiadau sy'n diffinio pob categori yn amrywio er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nyluniad y cwricwlwm a'r broses o'i gyflwyno yn y sector cynradd a'r sector uwchradd.

Bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn perthyn i gategori 1 cyfrwng Saesneg neu gategori 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd eraill, sydd wedi'u gategoreiddio ar hyn o bryd yn ysgolion dwyieithog - 2A, 2B, 2C,2D, neu Saesneg â Chymraeg sylweddol, Cymraeg â defnydd sylweddol o Saesneg, yn cael ei rhoi yn categori 2 neu o bosib mewn i un o'r is-gategoriâu trosiannol. Efallai y bydd angen i nifer fach o ysgolion yma gael eu gategoreiddio o'r newydd, o fewn categori 1, 3, neu throsiannol.

---

<sup>5</sup> Bydd ysgolion 3-19 yn ddarostyngedig i'r trefniadau ar gyfer categori darpariaeth. Felly, os bydd y dynodiad rhwng y cynradd a'r uwchradd yn amrywio, caiff hyn ei gofnodi o data CYBLD os bydd angen.

## **Dysgwyr sy'n symud o'r cynradd i'r uwchradd**

Bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd sy'n perthyn i'r un categori. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y bydd dysgwr sydd wedi mynychu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn trosglwyddo i ysgol uwchradd categori 2 neu categori 3. Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff yr opsiwn i wneud hyn gael ei amlinellu'n glir yn eu Prosbectysau Cyfansawdd.

Yn ogystal, mewn ysgolion ble mae darpariaeth ddwyieithog yn cael ei gynnig mewn ysgol dwy ffrwd gyda'r ffrwd arall yn ffrwd cyfrwng Cymraeg, gellid rhoi dewis i'r dysgwyr i drosglwyddo i'r ffrwd cyfrwng Cymraeg os ydynt yn dymuno derbyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Cynlluniau ar gyfer gwerthuso a gwella ysgolion**

I'r ysgolion hynny sydd wedi'u hadnabod fel rheiny gyda'r potensial a'r awydd i gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg, mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth yr awdurdod lleol ac eraill fel y Consortia Rhanbarthol ac Estyn i helpu'r ysgol wireddu ei nod a chadw cynnydd ar y trywydd cywir. Dylai unrhyw dargedau carreg filltir y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod lleol gyd-fynd â fframwaith Llywodraeth Cymru ar werthuso a gwella ysgolion.

## **Rhan 3: Rhoi'r trefniadau categoreiddio ysgolion newydd ar waith**

### **3.1 Cydweithio**

Gweithio gyda'n gilydd yw'r ffordd orau o sicrhau llwyddiant yn ystod camau pontio'r trefniadau newydd - o'r cynllunio cynnar i'r monitro. Bydd angen partneriaeth gydwethredol ar draws y gymuned addysg i gyflawni'r weledigaeth hon. Gallai hyn gynnwys ysgolion unigol, Consortia Rhanbarthol, Estyn, RhaG, fforymau addysg cyfrwng Cymraeg lleol, i enwi ond rhai.

### **3.2 Beth y dylid ei ddweud wrth rieni a gofalwyr: beth y dylai ysgolion ac awdurdodau ei gynnwys mewn prosbectysau?**

Dylai prosbectysau ysgolion unigol gynnwys y categorïau newydd a sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn glir ac yn hawdd i rieni/gofalwyr ei deall.

Dylai llywodraethwyr ysgolion ddefnyddio'r categorïau i ddisgrifio eu hysgol ym mhrosbectws yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i brosbectysau ysgolion a phrosbectysau cyfansawdd awdurdodau lleol gyfeirio at gategorïau ysgol/ysgolion yn eu hardal fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r canllaw.

### **3.3 Symud o'r trefniadau categoreiddio presennol i'r trefniadau newydd – sut y bydd yn digwydd?**

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am osod ysgolion yn y categorïau newydd yn y lle cyntaf. Nid oes angen ymgynghori ble mae'r cyswllt yn glir rhwng y categorïau presennol a'r categorïau newydd. Anogir Awdurdodau Lleol i drafod y broses gydag ysgolion unigol. Cadarnhaodd dadansoddiad manwl o ddata CYBLD 2018 a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau presennol, y byddai'r 1261 o ysgolion cynradd ac 194 ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ffitio'n daclus i un o'r categorïau newydd hyn. Mae amserlen ar gyfer symud pob ysgol i'r trefniadau i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

### **3.4 Beth sy'n digwydd pan na fydd ysgol yn cyfateb yn union i gategori?**

Os na fydd ysgol yn cyfateb yn union i un o'r tri categori, gall awdurdodau lleol bennu categori dros dro a/neu amodol ar ei chyfer neu gynnig ei osod mewn is-grwp trosiannol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar feini prawf a deilliannau penodol a nodir o fewn y categorïau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, wrth bennu categori newydd ar gyfer ysgol, os bydd yr ysgol honno wedi'i phennu'n categori 2 ar hyn o bryd ond yn agos iawn at gyflawni categori 3, gall yr awdurdod lleol a'r ysgol gytuno ar gynllun byrdymor i'r ysgol newid i'r categori nesaf.

### **3.5 Beth os bydd ysgol yn anghytuno gyda'i chategori?**

Byddai angen i ysgol ddangos tystiolaeth pam nad yw bellach yn ffitio i gategori. Byddai newid categori yn cael ei ystyried yn newid rheoledig sy'n gofyn am ymgynghoriad. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn amlinellu'r hyn a ystyrir yn newid rheoleiddiedig fel y nodir o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2013.

### **3.6 A oes rhaid i bob ysgol symud?**

Rydym yn disgwyl i bob ysgol, ni waeth beth fo'i categori, ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag nid oes gofyniad i ysgolion symud rhwng categorïau. Os oes awydd symud categori, gall y canllaw hwn fod yn gerbyd i helpu ysgolion i gyrraedd nodau eu cwricwlwm yng nghyd-destun darpariaeth o'r Gymraeg, p'un ai drwy symud i gategori newydd neu chynyddu darpariaeth o fewn eu categori presennol.

### **3.7 Beth y mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion ei wneud i roi'r canllawiau hyn ar waith?**

Efallai fod rhai ysgolion eisoes ar y daith tuag at y categori nesaf. I rai eraill, bydd y canllawiau hyn yn nodi cam cyntaf trafodaethau rhyngddyn nhw ac awdurdodau lleol ac ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol yn llywio'r broses hon. Mae nifer o amodau y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn i ysgolion ymgymryd â'r broses hon yn llwyddiannus, a bydd awdurdodau lleol eisoes yn ymwybodol o sefyllfa bresennol ysgolion o ran sicrhau bod yr amodau angenrheidiol ar waith.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn allweddol i'r broses gyfan. Mae angen i'r arweinyddiaeth hon ddod o gorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r tîm uwch-reolwyr, a rhaid i'r awdurdod lleol gefnogi'r arweinyddiaeth hon drwy gydol taith yr ysgol. Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn awyddus i weithio'n galed i sicrhau bod rhieni yn gefnogol, yn frwdfrydig ac yn deall y broses yn llawn o'r dechrau.

Bydd angen i gyrff llywodraethol gynllunio ei weithlu yn unol â'r canllawiau hyn a'r amcanion a bennir yn eu CSCA i gynyddu nifer y staff addysgu sydd â'r gallu i addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd angen nifer craidd o staff ar ysgolion sy'n dymuno symud i'r categori nesaf sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac a ddylai fod ar waith eisoes. Bydd angen cynllunio i gynyddu'r ddarpariaeth dros amser, a fydd hefyd yn golygu cynllunio datblygiad y gweithlu ar yr un pryd. Dylid defnyddio'r data a gesglir drwy Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lywio'r gwaith hwn o gynllunio'r gweithlu ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu ranbarthol. Gall hyn arwain at yr ysgol yn penodi aelodau newydd o staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a / neu gefnogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn addysgu drwy gyfrwng y ddwy iaith. Mae'r olaf yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob athro sy'n ymarfer "chwilio'n

weithredol am gyfleoedd i gymhwyso ac ymestyn eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddefnyddio'r Gymraeg" drwy gydol eu gyrfaeodd. Rydym yn annog ysgolion i ddefnyddio'r dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr. Gall hyn gynnwys Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu a gwella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a gwella eu hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir dysgu proffesiynol Cymraeg hefyd gan y Consortia Rhanbarthol, ac mae rhywfaint o ddarpariaeth ar gael i athrawon drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Gallai ysgolion uwchradd hefyd ddefnyddio prosiect E-sgol Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio technoleg fideo i gysylltu ystafelloedd dosbarth fel y gall dysgwyr o un ysgol ymuno â dosbarthiadau mewn ysgolion eraill o bell, gan alluogi myfyrwyr i fanteisio ar amrywiaeth fwy o bynciau ar lefel TGAU a Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

### 3.8 Beth y mae angen i bob un ohonom ei wneud?

Cam Gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Dyddiad gofynnol
Mapio'r ddarpariaeth addysg bresennol yn ôl gweithgarwch addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion, gan ddefnyddio data CYBLD fel gwaelodlin.	Awdurdodau lleol	O fis Gorffennaf 2021
Cytuno â llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir pa gategori sy'n disgrifio'r ysgol orau o ran y weledigaeth yn y CSCA i'w datblygu'n ieithyddol.	Awdurdodau lleol	O fis Gorffennaf 2022
Cynnwys categorïau CYBLD a'r categorïau newydd yn y Prosbectws Cyfansawdd.	Awdurdodau lleol	O fis Medi 2022
Cynnwys y categorïau mewn prosbectysau ysgolion a darparu'r wybodaeth hon i'r awdurdodau lleol er mwyn ei chynnwys yn y Prosbectws Cyfansawdd.	Llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir.	O fis Medi 2022
Helpu ysgolion i gofnodi'r categori CYBLD cywir.	Awdurdodau lleol	O fis Ionawr 2023

Cam Gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Dyddiad gofynnol
Cofnodi'r data ar eu ffurf newydd ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion cyn y broses casglu data flynyddol.	Pob Ysgol a Gynhelir	O fis Medi 2022 (yn barod ar gyfer proses casglu data CYBLD bob mis Ionawr)